Coleg Gwent

## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# Hyfforddiant Gyrwyr HGV / LGV CE (Dosbarth 1): Mynediad Uniongyrchol o Gar




**Yn gryno**

Mae Cyfrif Dysgu Personol yn fenter newydd gan Lywodraeth Cymru. Bydd y fenter yn rhoi cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan amser, rhad ac am ddim sy'n cynnig ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu i gyd-fynd â'u ffordd bresennol o fyw.

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i yrru cerbydau cymalog categori CE (Dosbarth 1) LGV, y categori cerbyd nwyddau mwyaf y gallwch ei gyflawni.

Cyfeirir yn gyffredinol at y cerbyd hwn fel lori gymalog, sydd fel rheol wedi ei gwneud o naill ai uned tractor gonfensiynol a threlar neu lori a threlar â bar tynnu arno (gwagen a cherbyd tynnu).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... Unrhyw un sy'n 19+ oed, yn byw yng Nghymru, yn gyflogedig, ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

... Unrhyw un sydd eisoes yn meddu ar drwydded yrru car. Nid oes angen i chi fod wedi ei meddu am gyfnod penodol o amser

... Gyrwyr cymwys sy'n awyddus i wella eu sgiliau a dilyn gyrfa yn y diwydiant cludo fel gyrwyr cerbyd nwyddau mawr

**Cynnwys y cwrs**

Cwblheir yr hyfforddiant ymarferol i yrwyr ar sail 1 i 1 dros 5 diwrnod, yn cynnwys eich prawf ymarferol. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn dysgu sut i wirio am ddiffygion, gyrru a symud cerbyd nwyddau mawr cymalog a dysgu i'w ddadfachu/ail-fachu'n ddiogel ac i'r safon ofynnol.

Mae dwy ran i'r prawf ymarferol:

ymarfer symud cerbyd am yn ôl mewn 'siâp S' i fae llwytho + gallu arddangos y weithred o ddadfachu/ail-fachu yn ddiogel
gyrru ar y ffordd am 60 munud

Byddwch yn dychwelyd am ddiwrnod ychwanegol i gwblhau cymhwyster Modiwl 4 y Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr (CPC), y byddwch ei angen ar gyfer defnyddio eich trwydded LGV at ddibenion gwaith.

**Gofynion Mynediad**

Cyn yr hyfforddiant ymarferol, bydd angen i chi:

gwblhau asesiad meddygol er mwyn gwneud cais am eich trwydded dros dro
llwyddo yn y profion theori LGV perthnasol

Trefnir yr elfennau hyn ar eich rhan.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd yr opsiynau hyfforddiant yn dibynnu ar le'r ydych chi'n byw.